Cronfa Datblygu Cynaliadwy
Sustainable Development Fund
BANNAU BRYCHEINIOG

Nodyn Cyfarwyddyd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Meysydd Chwarae Cymunedol

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi manteision y meysydd chwarae hynny a reolir gan y gymuned, ac mae'n rhoi ystyriaeth i geisiadau ar gyfer datblygu'u hoffer a'u safleoedd.

Mae meysydd chwarae'n bodloni nifer o feini prawf blaenoriaeth y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – gan gefnogi:

- *Cymru iachach;*
- *cyfleoedd gwell i gyrchu mannau allanol a chyfleusterau hamdden;*
- *cyfranogiad pobl ifanc;*
- *cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden;*
- *cymorth i adeiladu a chynnal cymunedau, trefi a phentrefi cynaliadwy.*

Mae chwarae yn cynnig un o'r ffyrdd hawsaf a mwyaf naturiol y gall plant o unrhyw oed gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ar y lefelau sydd eu hangen arnynt – bu pryder ers tro ynghylch y lefelau cynyddol o ordewdra ac anweithgarwch ymysg pobl ifanc[1]. Mae cael mynediad at gyfleoedd chwarae a hamdden mewn modd hygyrch a diogel yn ganolog i lesiant pobl ifanc y Parc ac i ddatblygiad cymunedau sy'n gydnerth ac yn gynaliadwy.

Gall y Gronfa Datblygu Cynaliadwy gefnogi prosiectau i ddatblygu ac uwchraddio meysydd chwarae – hyd at uchafswm o £2,000 fel arfer. Ni ellir ariannu gwaith cynnal a chadw arferol.

Yn ogystal â bodloni gofynion cyffredinol y Gronfa, mae angen i gynigion ddangos:

- eu bod wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc lleol ac yn adlewyrchu eu syniadau a'u hawgrymiadau;
- bod anghenion plant a phobl ifanc ag anableddau wedi'u hystyried a'u cynnwys;
- bod cyfleusterau ar gyfer plant o bob oed a gwahanol fathau o chwarae;
- bod yr offer sydd i'w osod wedi'i wneud o ddeunyddiau cynaliadwy;
- eu bod wedi'u tirlunio â phlanhigion sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt;
- eu bod yn dilyn yr arferion gorau a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) drwy ei Play Safety Department;

[1] Gweithgarwch Corfforol Plant a Phobl Ifanc, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2019

- eu bod wedi cael dyfynbrisiau gan gyflenwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Association of Play Industries;
- eu bod wedi cynnal asesiad risg ar gyfer y gosodiad;
- eu bod yn mynd i gael archwiliad ôl-osod RoSPA a derbyn ei sêl bendith;
- bod cynlluniau ar waith i archwilio/cynnal a chadw'n rheolaidd a bod adnoddau ar gael i gyflawni hynny;
- eu bod yn cynnal Arolygiad Blynyddol Annibynnol a bod adnoddau ar gael i alluogi hynny.

Ffynonellau Arian Cyfatebol Posibl ar gyfer Meysydd Chwarae

- Arian i Bawb
- Postcode Community Trust
- Bruce Wake Charitable Trust (cefnogi darparu cyfleusterau hamdden i bobl anabl)

Gall Cynghorau Gwirfoddol Sirol hefyd roi cyngor ar gyfleoedd i ariannu a datblygu prosiectau:

Powys	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) http://www.pavo.org.uk
Sir Gâr	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS) 01267 245555 / admin@cavs.org.uk / http://www.cavs.org.uk
Sir Fynwy	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) 01291 675474 / info@gavo.org.uk / https://www.gavo.org.uk

Ffynonellau Cefnogaeth Eraill

Play Wales - Chwarae Cymru - yr elusen genedlaethol dros chwarae plant

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) - Mae Adran Diogelwch Chwarae RoSPA yn darparu cyngor a gwybodaeth ar reoli meysydd chwarae a diogelwch mannau chwarae mewnol ac allanol.